

Blwyddyn y Môr

Eleni, thema tîm twristiaeth Llywodraeth Cymru, CroesoCymru, yw 'Blwyddyn y Môr'. Maent yn hyrwyddo Cymru fel lleoliad arfordirol yn yr 21^{ain} ganrif (Gweler: <https://businesswales.gov.wales/cy/zones/tourism/ByM2018>). Mae'r moroedd o amgylch Sir Benfro wedi cael eu cydnabod fel rhai arbennig mewn cyd-destun Ewropeaidd am fod ganddynt enghreifftiau rhagorol o gynefinoedd a rhywogaethau fel riffiau creigiog, gwastadeddau llaid, morloi a llysywod pendwll (<http://www.pembrokeshiremarinesac.org.uk/>). Fodd bynnag, cofnodir mai dim ond pump o bymtheg o nodweddion Ardal Cadwraeth Forol Arbennig Sir Benfro (SAC) sydd mewn cyflwr ffafriol mewn asesiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Cyfoeth Naturiol Cymru (<https://naturalresources.wales/media/683652/pembrokeshire-marine-sac-ica-2018.pdf>).



Ym Mlwyddyn y Môr, nid oes unrhyw ardaloedd yn ein moroedd lleol (nac yn wir, yn holl foroedd Cymru) sydd wedi'u diogelu'n llawn. Mae ein Parth Cadwraeth Morol Sgomer (MCZ) gyda'i dîm ar y safle a setiau data hirdymor wedi rhoi blas i ni o sut y gall diogelwch gynyddu amrywiaeth a darparu gwarchodfa ar gyfer rhywogaethau y gellir eu cynaeafu yn economaidd. Er bod pysgota â chewyll a genweirio yn parhau yn y Parth, ni chaniateir unrhyw offer treillio gwaelod. Mae nifer y cregyn bylchog wedi cynyddu'n fawr ac mae'r gwaddodion ymhlith y mwyaf amrywiol yng Nghymru.

PEMBROKESHIRE NATURE PARTNERSHIP



PARTNERIAETH NATUR SIR BENFRO

Cyrol 15 Rhifyn 1
Gwanwyn 2018

Yn y rhifyn hwn

Blwyddyn y Môr
Tudalennau 1-2

Llwybr Peillwyr Tyddewi
Tudalennau 2-3



Prosiect Cnwd Hadau'r Gaeaf yng
Nghorsydd Llangloffan
Tudalennau 3-4



Taith i Fyd Bioleg Foleciwlaidd
Tudalennau 4-5



Goed a Warchodir Gael eu Cwmpo yn
Freshwater East
Tudalen 5



Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park

Digwyddiadau
Tudalennau 6-7

Manylion Cysylltu
Tudalen 8

Ant Rogers - Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth
anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk 01437764551

Tudalen 1



Fodd bynnag, mae nifer y gwyntyllau môr megis *Eunicella verrucosa* mewn ardaloedd o'r Parth sy'n cael eu monitro yn gostwng. Ar gyfer hon a rhywogaethau eraill, gellir ond deall eu gweithrediad cymunedol arferol drwy gael ardal na therfir arni o gwbl i'w hastudio. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ardaloedd o'r fath yn y Parth.

Wooltack Point

Llun: Trevor Theobald



Ym Mlwyddyn y Môr, gadewch i ni ddathlu ein cefnfor a'n harfordir gwyh gyda'r holl fuddiannau economaidd y maent yn eu creu drwy dwristiaeth a physgota, ond hefyd gadewch i ni fynd ati i droi'r môr yn ôl yn ecosystem wydn ac amrywiol. Gallech ddweud wrth eich caffi lleol pam nad ydych am gael diod mewn potel plastig; gofynnwch i'ch hoff fwyty sut y cafodd y pysgod cregyn ar y fwydlen eu dal; gwnewch yn siŵr bod y llety Gwely a Brecwast drws nesaf yn hyrwyddo'r SAC Morol fel rheswm i ymweld â Sir Benfro; Ymunwch â'r Gymdeithas Cadwraeth Morol (<https://www.mcsuk.org/join>); ysgrifennwch at eich Aelod Cynulliad ac Ysgrifennydd y Cabinet yn gofyn am i rai Ardaloedd Morol Gwarchodedig lawn (HMPA) gael eu dynodi yng Nghymru.

Oni fyddai'n anhygoel petai Blwyddyn y Môr yn creu amgylchedd morol sydd wedi'i ddiogelu'n well, sy'n fwy amrywiol ac yn fwy gwydn.

Ant Rogers

Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth

Llwybr Peillwyr Tyddewi

Mae peillio gan bryfed yn werth mwy na £430 miliwn bob blwyddyn i amaethyddiaeth y DU a byddai'n costio £1.8 biliwn i ni bob blwyddyn petai'n rhaid i ni wneud y gwaith ein hunain! Ond, oherwydd y cynefin a gollir a gorddefnyddio plaladdwyr, mae nifer ein peillwyr yn lleihau'n fawr iawn.

Mae llawer o fentrau arbennig bellach i addysgu pobl am bwysigrwydd peillwyr a'r hyn y gallwn ei wneud i'w helpu: Caru Gwenyn gan Lywodraeth Cymru, Bee Lines gan Buglife a Polli:Nation sydd wedi'i ariannu gan Dreftadaeth y Loteri i enwi ond rhai ohonynt! The Bug Farm yw'r partner arweiniol ar brosiect newydd a chyffrous a elwir yn Llwybr Peillwyr Tyddewi. Nod y prosiect dwy flynedd hwn, a ariennir gan Gronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth Llywodraeth Cymru a Biodiversity Solutions, yw cael teuluoedd i fynd allan i ddysgu am fywydau cudd ein peillwyr. Mae'r prosiect yn dilyn cydweithrediad celf-gwyddoniaeth llwyddiannus diweddar rydym wedi bod yn rhan ohono - y Prosiect Croesbeillio, sy'n cael ei arddangos yn The Bug Farm tan fis Mawrth 2018.



Mae Tyddewi, er mai hi yw'r ddinas leiaf yn y DU, yn ferw o weithgarwch. Rydym yn croesawu dros 150,000 o ymwelwyr bob blwyddyn ac mae'r ddinas yn llawn busnesau blaengar, cynaliadwy ac o'r radd flaenaf yn ogystal â chynefinoedd naturiol ysblennydd. Yng nghanam cyntaf y prosiect, rydym yn bwriadu cysylltu llawer o'r busnesau a'r cynefinoedd hyn â'i gilydd, yn enwedig y rheini sy'n fannau cyfeirio perthnasol i ymwelwyr â'r ardal. Gan weithio gydag artistiaid, gwyddonwyr a chyfathrebwyr o Gymru, caiff 'gorsaf' ei chreu ym mhob busnes, neu ardal gynefin i ddangos byd rhyfeddol peillwyr pryfed a phwysigrwydd y cynefin blodau gwyllt i'w cynnal. Bydd llwybr rhyngweithiol, gyda map a chanllaw adnabod yn mynd â phobl a pheillwyr o gynefin i gynefin.



Yn dibynnu ar y safle, gallai'r cynefin fod yn ardal o ddôl blodau gwyllt, blwch ffenestr sy'n denu peillwyr, neu hyd yn oed westy pryfed, pob un wedi'i gefnogi gan fwrdd dehongli addysgol, dwyieithog a gwaith celf. Bydd pob bwrdd yn amlygu un rhywogaeth o beillwyr sy'n debygol o gael eu canfod ar y safle. Bydd y bwrdd hefyd yn cynnwys galwad i weithredu; neges neu weithgaredd y gallwch fynd ag ef adref gyda chi, i'r rheini sy'n dilyn y llwybr. Bydd cwestiwn i'w ateb hefyd ym mhob cynefin. Gellir mynd â phhecynnau llwybr wedi'u cwblhau i The Bug Farm i gael eu stampio i ddangos eu bod wedi'u cwblhau, gan ennill gwobr fach i'r cyfranogwr.

Bydd cam 2 y prosiect yn cynnwys gwleddoedd peillwyr, gweithdai hyfforddi lle

gellir dysgu am anifeiliaid di-asgwrn-cefn, arddangosfeydd hanes ffermio a llawer mwy!

Fel rhan o'r prosiect, rydym yn gwneud cais am achrediad 'Caru Gwenyn' ar gyfer Tyddewi. Bydd yr ardaloedd newydd/wedi'u hailfywiogi o gynefin peillwyr sy'n rhan o'r llwybr, ynghyd â chynefin peillwyr presennol sydd eisoes ar y penrhyn i gyd yn helpu i fodloni'r meini prawf. Yn yr un modd, os ydych yn hapus i ymrwymo i beidio â defnyddio plaladdwyr yn eich gardd, anfonwch e-bost atom i gadarnhau hyn. Y nod yw mai Tyddewi fydd Dinas Caru Gwenyn gyntaf Cymru! Os oes gan unrhyw un unrhyw ardaloedd pellach o gynefin neu fwyd peillwyr, neu brosiectau peillwyr cymunedol y byddech yn hoffi i ni eu cynnwys, anfonwch e-bost atom.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â ni.


Sarah Sharpe.

The Bug Farm

sarah.sharpe@thebugfarm.co.uk



Dr. Beynon's
Farm
Bug



Prosiect Cnwd Hadau'r Gaeaf yng Nghorsydd Llangloffan

Mae nifer adar ffermdir Prydain wedi lleihau'n frawychus dros y pum mlynedd ar hugain diwethaf, gyda rhai rhywogaethau yn diflannu yn lleol a llawer o rhai eraill dan fygythiad. Byddai'n ymddangos bod y gostyngiad yn eu niferoedd yn cyd-fynd â chyfnod o ddwysáu cyflym mewn ffermio ers canol y 1970au, ac mae eu niferoedd wedi parhau i ostwng yn raddol ers hynny. Rheswm arall am y lleihad hwn yw diffyg bwyd yn ystod y gaeaf sy'n achosi nifer fawr o farwolaethau.

Yng ngwarchodfa natur Corsydd Llangloffan yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt, mae 7 erw o laswelltir wedi'i led-wella y mae gwartheg yn ei bori ar hyn o bryd, a lle mae cyfleoedd i reoli cynefinoedd yn well. Drwy drafodaethau â Grŵp Adar Sir Benfro a sefydliadau



cadwraeth eraill, mae diffyg ffynonellau hadau yn y gaeaf i adar yn bryder mawr yn yr amgylchedd tir pori uchel hwn.



Er mwyn helpu i gynnal a helpu rhywogaethau adar i wella dros fisoedd y gaeaf yn yr ardal hon, mae'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt yn bwriadu hau ardal 2 erw o'r glaswelltir fel cnwd hadau'r gaeaf. Caiff cymysgedd hadau 'BumbleBird' ei hau a fydd yn darparu adnodd bwyd i adar ffermdir yn ystod misoedd y gaeaf 2018/2019 a 2019/2020. Bydd hefyd yn darparu cyflenwad helaeth o flodau llawn pail a neithdar rhwng dechrau a diwedd yr haf ar gyfer amrywiaeth o bryfed sy'n bwydo ar neithdar, gan gynnwys gloynnod byw a chacwn (rhywogaethau eraill y mae angen cymorth arnynt).

Mae'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt wedi bod yn ffodus i gael arian gan Grŵp Adar Sir Benfro a Phartneriaeth Natur Sir Benfro ar gyfer y prosiect hwn.

Y mathau o rywogaethau a allai cael eu gwasanaethu'n dda gan ffynonellau hadau ychwanegol yw'r grŵp golfanod, fel ehedyddion sy'n bwydo ar y tir, pincod (sawl rhywogaeth – gan gynnwys llinosod a ji-bincod) a breision (fel bras y gors a bras melyn gobeithio – os byddant yn yr ardal). Gobeithio y gallai adar fel

adar y to a golfanod y mynydd (yn y gorffennol roedd poblogaeth bridio/gaeafu leol ger Corsydd Llangloffan) hefyd gael budd sylweddol o ffynonellau hadau planhigion o fath cynefinol.

Mae gwaith ymchwil yn awgrymu y bydd tirwedd ffermio gymysg sy'n cyfuno pori stoc ag amaethu â'r sy'n cynnal rhai mathau o sofr dros y gaeaf yn cefnogi niferoedd uwch ac amrywiaeth uwch o adar sy'n bwydo mewn caeau na thirweddau yn llawn cnydau sydd wedi'u hau yn yr hydref neu dir pori. Mae sofr dros y gaeaf yn gynefinoedd bwydo hynod bwysig ar gyfer golfanod sy'n bwyta hadau. Ar dir wedi'i neilltuo, mae adfywio gorchudd llystyfiannol o sofr felly'n debygol o arwain at lawer mwy o fuddiannau i adar gaeafu sy'n bwyta hadau na gorchuddion gwair wedi'i hau.

Nathan Walton

Swyddog Ymddiriedolaeth
Natur Sir Benfro



Taith i Fyd Bioleg Foleciwlaidd

Mae llawer wedi digwydd yn y ddwy flynedd ers i Bartneriaeth Natur Sir Benfro roi help llaw i ni yn ein cynllun i gymryd rhan yn yr ymchwiliad i DNA ffwngaid. Gwnaeth cymorth PNP ein galluogi i ymuno â chynllun peilot i gynnal prawf beta ar y Bento Lab - pecyn anhygoel sy'n cyfuno'r adnoddau hanfodol ar gyfer bioleg foleciwlaidd yn un uned gryno.

Dychwelwyd yr offeryn prawf beta i'r cyflenwyr ar ôl cwblhau cyfnod prawf o 6 mis. Nawr, yn dilyn cyfnod estynedig o ddatblygu, rydym yn disgwyl derbyn un o'r modelau cynhyrchu cyntaf yn ystod yr wythnosau nesaf.

Diolch i hyfforddiant a chymorth gan Gareth Griffith ym Mhrifysgol Aberystwyth, a deunyddiau a chyllid ychwanegol gan y prosiect "Lost and Found" sy'n cael ei redeg





gan y Gerddi Botanegol Brenhinol, Kew (RBGK) a Chymdeithas Mycoleg Prydain (BMS), mae ein rhaglen waith wedi cynnwys arolwg Sir Benfro o rywogaethau capiau cwyr duol ac, ar hyn o bryd, astudiaeth Cymru gyfan o amrywiolion y tafod daear melynwyrdd (*Microglossum olivaceum*) a gefnogir gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Rydym bellach mewn sefyllfa i echdynnu DNA o ffyngau, chwyddo rhan cod bar y DNA, a phuro'r sampl wedyn fel y gellir ei hanfon i Aberystwyth ar gyfer dilyniannu.

Mae hyn yn creu cyfleoedd i ni wneud cyfraniad gwyddonol yn seiliedig ar wirfoddolwyr at astudiaethau mycoleg yn lleol ac yn genedlaethol. Yn dilyn ein hesiampl, anogir grwpiau ffyngau ledled y DU, gyda chymorth yr RBGK a'r BMS, i edrych yn agosach ar ffyrdd y gallant gymryd rhan weithgar yn y defnydd o dechnegau moleciwlaidd i gefnogi eu prosiectau.

David Harries

Rhwydwaith Cofnodi
Ffyngau Sir Benfro



Goed a Warchodir Gael eu Cwmpo yn Freshwater East

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn apelio am wybodaeth ar ôl i ddwsinau o goed gwarchodedig yn Freshwater East gael eu cwmpo a'u gadael yn anghyfreithlon. Mae'r coed, sef coed ynn, sycamor a draenen wen yn bennaf, yn rhan o goetir sydd wedi ei ddiogelu gan Orchymyn

Diogelu Coed (TPO). Mae'r rhan fwyaf o'r coed yn eiddo i Awdurdod y Parc Cenedlaethol, ond mae rhai yn eiddo i drigolyn lleol. Mae Gorchmynion Diogelu Coed yn diogelu coed ar gyfer amwynderau, mwynhad y cyhoedd neu oherwydd eu budd amgylcheddol, ac maen nhw'n gwahardd newidiadau fel cwmpo'r coed, eu tocio, eu torri neu eu codi heb ganiatâd yr awdurdod cynllunio lleol.

Dywedodd Jane Gibson, Cyfarwyddwr Cyfeiriad a Chynllunio Awdurdod y Parc Cenedlaethol: "Rydym yn ystyried y math hwn o dor-amod yn fater difrifol iawn, ac mae'r heddlu lleol eisoes wedi gwneud ymholiadau o ddrws i ddrws. Rydym yn apelio ar unrhyw un sydd â gwybodaeth am gwmpo'r coed hyn i roi gwybod i'r awdurdodau. "Dyma'r tramgwydd gwaethaf yn erbyn Gorchymyn Diogelu Coed a welais i erioed. Mae rhywun nid yn unig wedi torri coed oedd wedi cael eu diogelu - maen nhw hefyd wedi cyflawni'r gwaith anawdurdodedig hwn ar dir nad oedd yn perthyn iddyn nhw. "Gan fod y coed wedi cael eu gadael, bydd yn rhaid i Awdurdod y Parc ymgymryd â gwaith adferol i glirio, bondocio ac ailblannu'r safle ar gost sylweddol.

Ychwanegodd Tim Jones, Warden Reolwr Awdurdod y Parc (y De): "Roedd llawer o'r coed wedi eu lleoli yng Ngwarchodfa Natur Leol Freshwater East, a bu pobl leol yn ymgyrchu'n hir ac yn galed dros gael Gorchymyn Diogelu Coed er mwyn amddiffyn y coetir rhag gwaith datblygu.

Am ragor o wybodaeth am goed ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro, gan gynnwys map rhyngweithiol o Orchymynion Diogelu Coed, ewch i www.arfordirpenfro.cymru/coed. Dylai unrhyw un sy'n gwybod rhywbeth am gwmpo'r coed heb awdurdod gysylltu ag Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar 01646 624800 gan ddyfynnu Torri Amodau Gorfodi Cynllunio, Cyfeirnod: EC17/0149.

Medi George
Pembrokeshire Coast
National Park Authority



Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park

Ant Rogers - Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth
anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk 01437764551

Tudalen 5



Digwyddiadau Bioamrywiaeth Chwefror-Mai



Dyddiad	Teitl	Manylion	Cyswilt
14 – 21 Chwefror	Wythnos Bocsys Nythu Genedlaethol (NNBW)	Nod NNBW yw annog pawb i osod bocsys nythu yn eu hardal leol er mwyn hyrwyddo a gwella bioamrywiaeth a chadwraeth ein hadar bridio a'n bywyd gwyllt. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: https://www.bto.org/about-birds/nnbw	
21 Chwefror 12:00– 14:00	Glanhau'r Traeth yn Freshwater West	Defnyddiwch offer casglu sbwriel a helpwch ni i ofalu am y rhan brydferth hon o'r arfordir gyda'n sesiynau glanhau traeth cyn y tymor. Cwrdd ym maes parcio Freshwater West	Ymddiriedolaeth Genedlaethol stackpole.bookings@nationaltrust.org.uk
7 Mawrth 19:30 – 21:00	The People's Orchard. Neuadd Eglwys Gatholig Aberteifi.	Ymunwch â Grŵp Lleol De Ceredigion yr Ymddiriedolaeth Natur am sgwrs ar brosiect 'The People's Orchard' yn Llandudoch gan Nia Siggins a/neu Sophie Jenkins.	Margaret Powell 01239 621512
20 Mawrth 19:15 – 21:00	Dirgelwch Ymfudiad Adar. Canolfan Gymunedol Tŷ Ffowndri, Penfro.	Ymunwch â grŵp lleol De Sir Benfro am sgwrs gan David Saunders am ddirgelwch ymfudiad adar. Croeso i bawb a'r ffi mynediad yw £1.50 i aelodau WTSWW a £2.50 i bobl nad ydynt yn aelodau.	Lynda: 01834 810307 neu Christine: 01646 673912
23 – 29 Mawrth	Wythnos Rhywogaethau Ymledol	Cymerwch ran yn yr wythnos genedlaethol o weithredu i fynd i'r afael â Rhywogaethau Ymledol Anfrodorol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: http://www.nonnativespecies.org/index.cfm?sectionid=132	
28 Mawrth 13:00 – 16:00	Gweithdy Steve Thorp Oriol y Parc.	Ysgrifennu cerddi Tirwedd a Morwedd. Rhagor o fanylion yma: www.pembrokeshirecoast.wales	Fe'ch cynghorir i gadw lle. 01437 720392
29 Mawrth 10:30	Chwilota Oriol y Parc, Tyddewi	Chwilota am Fwyd gyda Julia Horton-Powdrill. Rhagor o fanylion yma: www.pembrokeshirecoast.wales	Mae'n hanfodol cadw lle 01437 720392
30 Mawrth 18:30 – 20:00	Gweithdy Steve Thorp Oriol y Parc.	Caneuon y Ddaear – Noson o gerddi yn dathlu'r ddaear a'r cefnfor. Rhagor o fanylion yma: www.pembrokeshirecoast.wales	Mae'n hanfodol cadw lle 01437 720392
5 Ebrill 10:30	Chwilota Oriol y Parc, Tyddewi	Chwilota am Fwyd gyda Julia Horton-Powdrill. Rhagor o fanylion yma: www.pembrokeshirecoast.wales	Mae'n hanfodol cadw lle 01437 720392
5 Ebrill 13:00 – 16:00	Gweithdy Steve Thorp Oriol y Parc.	Meddwl am yr Hinsawdd – sgwrs. Rhagor o fanylion yma: www.pembrokeshirecoast.wales	Fe'ch cynghorir i gadw lle. 01437 720392
5 Ebrill 14:00 – 16:00	Fy Nheulu a Gardd Gaerog Ystagbwl – safbwynt Parcmon	Haydn Garlick. Rhagor o fanylion yma: www.pembrokeshirecoast.wales	Mae'n hanfodol cadw lle 01437 720392
7 Ebrill 11:00 – 15:00	Hwyl Gwenyn Mêl yng Nghastell Henllys	Rhagor o fanylion yma: www.pembrokeshirecoast.wales	I gael gwybodaeth, ffoniwch 01239 891319

Digwyddiadau Bioamrywiaeth Chwefror-Mai



Dyddiad	Teitl	Manylion	Cyswllt
8 Ebrill 09:30 – 16:00	Castellmartin ar Droed	I rai dros 18 oed yn unig. Rhagor o fanylion yma: www.pembrokeshirecoast.wales	Mae'n hanfodol cadw lle 01437 720392
10 Ebrill 19:30 – 21:00	Cyfnos yn Ystagbwll	Mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Rhagor o fanylion yma: www.pembrokeshirecoast.wales	Mae'n hanfodol cadw lle 01437 720392
11 Ebrill 19:30 – 21:00	Helfa Ystlumod yng Nghastell Caeriw	Rhagor o fanylion yma: www.pembrokeshirecoast.wales	Mae'n hanfodol cadw lle 01437 720392
12 Ebrill 10:30	Chwilota Oriol y Parc, Tyddewi	Chwilota am Fwyd gyda Julia Horton-Powdrill. Rhagor o fanylion yma: www.pembrokeshirecoast.wales	Mae'n hanfodol cadw lle 01437 720392
22 Ebrill 15:00	Glanhau'r traeth yn Niwngwl	Gyda <i>Surfers against Sewage</i> . Rhagor o fanylion yma: www.pembrokeshirecoast.wales	Fe'ch cynghorir i gadw lle. 01437 720392
25 Ebrill 19:30	Garddio Bywyd Gwyllt yng Nghastell Henllys	Sgwrs gyda'r nos. Rhagor o fanylion yma: www.pembrokeshirecoast.wales	I gael gwybodaeth, ffoniwch 01239 891319
28 Ebrill 11:00 – 15:00	Hwyl Gwenyn Mêl yng Nghastell Henllys	Rhagor o fanylion yma: www.pembrokeshirecoast.wales	I gael gwybodaeth, ffoniwch 01239 891319
13 Mai 09:30 – 13:30	Castellmartin ar Droed	Taith hanner diwrnod. I rai dros 18 oed yn unig. Rhagor o fanylion yma: www.pembrokeshirecoast.wales	Mae'n hanfodol cadw lle 01437 720392
22 Mai	Diwrnod Rhyngwladol ar gyfer Amrywiaeth Fiolegol	Mae'r Cenhedloedd Unedig wedi datgan taw Mai 22 fydd y Diwrnod Rhyngwladol ar gyfer Amrywiaeth Fiolegol (IDB) i gynyddu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o faterion bioamrywiaeth. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: https://www.cbd.int/idb/	
23 Mai 14:00 – 16:00	Taith Gerdded Blodau Gwyllt yn Freshwater East	Gyda Vicky Tomlinson Rhagor o fanylion yma: www.pembrokeshirecoast.wales	Mae'n hanfodol cadw lle 01437 720392
24 Mai 10:30	Chwilota Oriol y Parc, Tyddewi	Chwilota am Fwyd gyda Julia Horton-Powdrill. Rhagor o fanylion yma: www.pembrokeshirecoast.wales	Mae'n hanfodol cadw lle 01437 720392
26 Mai 11:00 – 15:00	Hwyl Gwenyn Mêl yng Nghastell Henllys	Rhagor o fanylion yma: www.pembrokeshirecoast.wales	I gael gwybodaeth, ffoniwch 01239 891319
29 Mai 19:30 – 21:00	Cyfnos yn Ystagbwll	Rhagor o fanylion yma: www.pembrokeshirecoast.wales	Mae'n hanfodol cadw lle 01437 720392
30 Mai 19:30 – 21:00	Cyfnos yng Ngholby	Rhagor o fanylion yma: www.pembrokeshirecoast.wales	Mae'n hanfodol cadw lle 01834 811885

Cylchlythyrau Natur

This newsletter is also available in English, contact Ant for an English copy.

Hoffai PNSB ddiolch i bawb a gyfrannodd i'r cylchlythyr hwn. Os ydych chi am ysgrifennu erthygl i'r cylchlythyr nesaf mae croeso i chi gysylltu â Ant.

Manylion Cysylltu PNSB

- Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth, Ant Rogers, Ffôn – 01437 764 551 anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk
- Natur Sir Benfro gwefan www.pembrokeshire.gov.uk (chwilio - bioamrywiaeth)
- Bioamrywiaeth Cymru gwefan www.biodiversitywales.org.uk

Aelodau PNSB

amphibian and reptile
conservation



gwarchod
amffibiaid ac ymlusgiaid



cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy



Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



WEST WALES
BIODIVERSITY INFORMATION CENTRE
CANOLFAN WYBODAETH BIOAMRYWIAETH
GORLLEWIN CYMRU



Ant Rogers - Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth
anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk 01437764551

Tudalen 8

